Bannau Brycheiniog

# Gŵyl Awyr Dywyll

20 Medi 2025

CANOLFAN YMWELWYR Y PARC CENEDLAETHOL LD3 8ER

SGYRSIAU A GWEITHDAI | SYLLU AR Y SÊR | TEITHIAU CERDDED

ARCHEBWCH NAWR

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# GŴYL AWYR DYWYLL







## Dewch i ddarganfod Rhyfeddodau Awyr y Nos

Ymunwch â ni ar gyfer ein dathliad blynyddol o awyr y nos yng nghanol Gwarchodfa Awyr Dywyll Bannau Brycheiniog.

Ar ddydd Sadwrn 20 Medi 2025, bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn dod yn fyw gyda diwrnod a noson lawn o sgyrsiau ysbrydoledig, gweithgareddau ymarferol, sesiynau syllu ar y sêr, a phrofiadau planedariwm trochol - i gyd wedi'u gosod yn erbyn un o'r cefndiroedd gorau ar gyfer darganfod awyr dywyll yn y DU.

P'un a ydych chi'n seryddwr profiadol neu'n syml wrth eich bodd â harddwch awyr serennog, mae Gŵyl yr Awyr Dywyll yn cynnig rhywbeth i bawb.



Dydd Gwener 19

8YP

## Astroffotograffiaeth

£65

Treuliwch y nos dan y sêr gyda ffotograffydd (Dafydd Wyn Morgan) sêr profiadol er mwyn deall holl fanylion cywrain tynnu lluniau gyda'r nos. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn ymweld â thri lleoliad er mwyn tynnu llun gyda gwahanol gyfansoddiadau gyda'r Llwybr Llaethog a gwrthrychau wybrennol eraill.



Dydd Gwener 19
+
Dydd Sadwrn 20

7.30YP

## Taith Gerdded Ystlumod Gyda'r Nos

£10

Gydag Yvette Amos o Little Wing Ecology. Dewch i ddysgu am ystlumod Bannau Brycheiniog. Gwrandewch ar alwadau'r ystlumod gyda'n hoffer arbenigol. Gwyliwch nhw'n hedfan, porthu a hela. Dysgwch am rywogaethau ystlumod Cymreig a pham mae mannau tywyll mor bwysig i'r creaduriaid hanfodol hyn.




10YB
+
1.30YP

## Twyn y Gaer

£10

Ymunwch â'r arweinydd teithiau cerdded cymwys a Llysgennad y Parc Cenedlaethol Sarah Price o Walk Hay am daith gerdded 3.5 milltir hamddenol a llawn golygfeydd ar draws tirwedd agored comin Mynydd Illtud.



11YB
+
3YP

## Mythau a Chwedlau Awyr y Nos

£7.50

Sioe Planetariwm. Clywch y mythau a'r straeon amserol a drosglwyddir trwy genedlaethau. Dysgwch adnabod cytserau mawr yn rhwydd. Darganfyddwch ystyr dyfnach y Sidydd a sut y defnyddiodd ein hynafiaid yr awyr i wneud synnwyr o'u byd.




11.30YB

## Cyfrifiadur Harvard

£6

Sgwrs Arbenigol gyda Stephen Webber, Cymdeithas Seryddol Caerdydd. Mae yno stori am grŵp o fenywod, sy'n cael eu hadnabod fel mamau seryddiaeth fodern, a oedd yn gweithio ym Mhrifysgol Harvard ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



12YP
+
2YP

## Awyr y Nos yn yr Hydref

£7.50

Sioe Planetariwm. Wrth i ddyddiau hir yr haf ddod yn atgof yn unig, gallwch edrych ymlaen at nosweithiau hirach yr Hydref. Mae hwn yn amser gwych ar gyfer syllu ar y sêr, mae'r nosweithiau'n mynd yn hirach ac yn aml maent yn dal yn gymharol gynnes. Ymunwch â ni yn y cyflwyniad hwn wrth i ni ddangos i chi sut i adnabod y cytserau, y Llwybr Llaethog, planedau a llawer mwy.



### 12.30YP Sgwrs Arbenigol ar y Daith i'r Lleuad £6

Sgwrs Arbenigol gyda Wayne Jones. Gellir dadlau mai llwyddiant fwyaf erioed dynolryw oedd glanio deuddeg o ofodwyr ar y lleuad a'u dychwelyd yn ddiogel i'r ddaear unwaith eto. Dyma stori'r llwyddiant hwnnw a'r bobl a fu'n rhan o'r daith.



### 1YP + 4YP Taith Drwy'r System Solar £7.50

Gan ddefnyddio graffeg gyfrifiadurol o'r radd flaenaf, byddwn yn ymweld â'r 8 planed ac yn eu gweld mewn manylder trochol rhyfeddol. Byddwch yn clywed sut mae'r datblygiadau hyn yn newid barn dynolryw ar ein safle yn y cosmos ac yn rhyfeddu at harddwch a rhyfeddod ein planed ein hunain ac fel brycheuyn yn ehangder helaeth y gofod.



### 1.30YP Meddygfa Ysbienddrychau a Binocwlars £1

Mae profiad Andrew Lohfink o ddefnyddio ysbienddrychau a binocwlars i arsylwi ar awyr y nos yn un sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd. Bydd yn cynnal meddygfa er mwyn i chi allu dod â'ch ysbienddrychau a'ch binocwlars ato i chi ddysgu sut i gael y gorau ohonynt.




### 2.30YP Goroesi Armagedon £6

A oeddech chi'n gwybod - Mae'r rhan helaeth o'r awyrfeini sy'n disgyn i'r ddaear yr un oed, rhyw 4.6 biliwn mlwydd oed! Yn ystod y sgwrs hon bydd Lynda Patchin yn dangos enghreifftiau o awyrfeini go iawn.



### 3.30YP Surviving Armageddon £6

Dysgwch am ddigwyddiadau effaith, y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a sut y gallem lynu'n ddyfal wrth fywyd wedi'r cyfan. Sgwrs gan Phil Wallace).



### 7YP Y Digwyddiad Syllu ar y Sêr Gorau £20

Ymunwch â ni am antur tair rhan ar draws ein bydysawd. Byddwch yn cael eich cludo yn ein planedariwm poblogaidd, lle mae cytserau a chwedlau hynafol yn dod yn fyw. Gwrandewch ar ein siaradwyr arbenigol ac archwiliwch awyr y nos ochr yn ochr â'n seryddwyr gan ddefnyddio telesgopau pwerus.

# Rhaglen

# Digwyddiadau Trwy'r Dydd





GŴYL AWYR DYWYLL 2025

Mae gennym ni ddiwrnod llawn dop o weithgareddau cyffrous, am ddim, perffaith i'r teulu cyfan!

**10YB - 4YP**

### Natur yn y Nos (3 - 12 oed)

Dysgwch am ein hawyr dywyll hudolus a bywyd gwyllt y nos unigryw. Crëwch eich gwyfyn cuddliw eich hun neu cymerwch ran yn ein Her Gweld Silwét!

### Syllu ar yr Haul


Gyda ymdeithas Seryddol Caerdydd a with the Bridgend Astronomical Society. Bydd telesgopau solar yn cael eu gosod i wylio'r haul yn ddiogel (os yw'r tywydd yn caniatáu).

**11 YB - 4YP**

### Llinell Gymorth Draenogod

Arferai draenogod fod yn ymwelwyr cyfarwydd â'n gerddi, ond bu dirywiad dramatig o 95% ers y 1950au. Dysgwch gan y tîm yn Llinell Gymorth Draenogod am sut allwch chi helpu i amddiffyn y rhywogaeth bwysig hon.





## Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Mae wastad croeso cynnes i'w gael yn ein Canolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol. Mae'r tîm o Swyddogion Gwybodaeth cyfeillgar a gwybodus wrth law drwy gydol y flwyddyn i'ch helpu i wneud y gorau o'ch ymweliad â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Cyrraedd yma**
Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ond 5 munud oddi ar yr A470 ym mhentref Libanus. Pan fyddwch chi'n mynd i mewn i'r pentref, chwiliwch am yr arwydd cyfeirio brown ar gyfer Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. Y cod post agosaf yw LD3 8ER ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dilyn yr arwyddion wrth i chi agosáu.

Mae'r cyfleusterau'n cynnwys caffi, toiledau, man chwarae i blant, siop anrhegion, parcio a gwefru cerbydau trydan.

Nid yw pris y tocyn yn cynnwys parcio.

## Gwybodaeth Archebu

Gellir archebu tocynnau ar gyfer pob digwyddiad ar-lein.

Ewch i www.bannaubrycheiniog.org/events neu sganiwch y cod QR isod i gael gwybod mwy ac archebu.

https://bannaubrycheiniog.org/event/dark-sky-festival-2

Am ragor o wybodaeth am ein Gŵyl Awyr Dywyll, cysylltwch â Chanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol:

01874 623 366

vcuser@beacons-npa.gov.uk

# Darganfod mwy

Bannau Brycheiniog